# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 30 Medi a 7 Hydref 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Staff y Cynulliad fydd yn cael eu Lleoli yn Nwyrain De Cymru

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o staff y Cynulliad fydd yn cael eu lleoli yn Nwyrain De Cymru? (WAQ37989)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai 439 fydd nifer y swyddi a leolir yn y swyddfa newydd ym Merthyr, heb gynnwys staff diogelwch—ni phenderfynwyd eto ar y ffigur hwnnw.

### Cwrdd â Gweinidog y Lluoedd Arfog (DARA)

**Jenny Randerson:** Pryd yn y flwyddyn ddiwethaf y gwnaeth y Prif Weinidog gwrdd â Gweinidog Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU i drafod materion yn ymwneud â'r Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn?

(WAQ38137)

**Y Prif Weinidog:** Cynhaliwyd tri chyfarfod â Gweinidog y Lluoedd Arfog ar 21 Hydref 2003, 1 Gorffennaf 2004 a 27 Medi 2004. Cafodd un cyfarfod ei ganslo am fod y trenau'n hwyr ac, yn ei le, cafwyd trafodaeth dros y ffôn ar 17 Mehefin, a chafwyd sawl galwad ffôn a thipyn o ohebiaeth hefyd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Prosiect Gwyliau Cymraeg Menter Iaith

**Lisa Francis:** Beth yw prosiect gwyliau Cymraeg menter iaith? (WAQ34201)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Menter a arweinir gan fentrau iaith Gwynedd a Chonwy yw'r prosiect gwyliau Cymraeg. Ei nod yw denu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg i Wynedd a Chonwy i ddefnyddio'r Gymraeg ar wyliau. Mae'r cynllun yn tynnu sylw at amryw o fusnesau lle mae cyfleoedd i ddefnyddio neu wella sgiliau yn y Gymraeg mewn amgylchedd Cymraeg naturiol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar: www.holidaysinwelsh.com.

### Datblygu 'Cyfnodau Sabothol Dysgu Iaith'

**Owen John Thomas:** Faint o arian sydd wedi cael ei wario ar ddatblygu 'cyfnodau sabothol dysgu iaith'—'Iaith Pawb', tudalen 45—yn 2003-04? (WAQ37928) [W]

**Owen John Thomas:** Faint o arian sydd wedi'i glustnodi ar gyfer datblygu 'cyfnodau sabothol dysgu iaith' yn 2004-05? (WAQ37929) [W]

**Alun Pugh:** Yr oedd ymrwymiad 'Iaith Pawb' i ariannu cyfnodau sabothol ar gyfer 2005-06. Felly, ni chafodd unrhyw arian ei wario yn ystod 2003-04, ac nid oes dim wedi'i glustnodi ar gyfer 2004-05. Yn y cyfamser, mae swyddogion yn datblygu cynllun i gyflawni yr ymrwymiad yn 'Iaith Pawb' ar gyfer 2005-06. Hefyd, mae cyfnodau sabothol dysgu iaith yn weithgaredd cymwys yn rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ers 2003-04.

### Sicrhau Dyfodol Eisteddfod Genedlaethol Cymru

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei ystyriaethau o ran sicrhau dyfodol Eisteddfod Genedlaethol Cymru? (WAQ38153)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn cynnal ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Adlewyrchir hyn gan y ffaith fod yr Eisteddfod yn cael un o'r grantiau mwyaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein cyllid i'r Eisteddfod wedi cynyddu'n sylweddol—£400,000 yn 2004-05, o'i gymharu â £300,000 yn 2002-03.

Mae’n hanfodol fod yr Eisteddfod yn ei gwneud ei hun yn fwy deniadol i ystod ehangach o bobl os yw i ffynnu. Yr wyf yn falch fod y rheolwyr presennol yn cydnabod y ffaith honno, gan ei bod yn hanfodol i’r Eisteddfod foderneiddio a bwrw ati i newid er mwyn gwella ei marchnata a denu mwy o ymwelwyr. Cyflwynwyd rhai arferion arloesol llwyddiannus eleni yng Nghasnewydd ac edrychaf ymlaen at weld rhain yn cael eu datblygu yn y dyfodol.

## Arolwg o 100 Arwr Cymru ar y Rhyngrwyd

**Peter Black:** Sawl cwyn a ddaeth i law y Gweinidog ynghylch y ffordd y cynhaliwyd yr arolwg o 100 arwr Cymru ar y rhyngrwyd? (WAQ38154)

**Alun Pugh:** Dwy, gan gynnwys eich un chi.

## Prosiect 100 Arwr Cymru Culturenet Cymru

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiect 100 arwr Cymru Culturenet Cymru? (WAQ38155)

**Alun Pugh:** Sefydlwyd Culturenet Cymru i ddatblygu a darparu rhwydwaith o wybodaeth ddiwylliannol genedlaethol, ddwyieithog a gwasanaethau technoleg cyfathrebu. Bwriadwyd i brosiect 100 arwr Cymru fod yn brosiect poblogaidd gyda’r nod o hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r we a’i defnyddio at ddibenion diwylliannol.

## Gêm Ragbrofol Cwpan y Byd rhwng Cymru a Lloegr

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r trafodaethau y mae wedi’u cael â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynghylch dyrannu’r tocynnau ar gyfer gêm ragbrofol Cwpan y Byd rhwng Cymru a Lloegr yn Old Trafford ar 9 Hydref 2004? (WAQ38156)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynghylch dyrannu’r tocynnau ar gyfer gêm ragbrofol Cwpan y Byd rhwng Cymru a Lloegr sydd i’w chynnal yn fuan. Mae hwn yn fater i Gymdeithas Bêl-droed Cymru.

## Gwella Mynediad at Lyfrgelloedd Lleol yng Nghymru

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wella mynediad at lyfrgelloedd lleol yng Nghymru? (WAQ38157)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad clir yn ‘Cymru: Gwlad Well’ i ddatblygu gwasanaethau llyfrgell. Mae hygyrchedd yn cael ei nodi fel elfen allweddol a chaiff y safonau i lyfrgelloedd cyhoeddus, a gyflwynwyd gennym, eu defnyddio fel sylfaen i ddatblygiadau.

Sefydlwyd CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru ar 1 Ebrill 2004 fel is-adran newydd o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Un o brif amcanion CyMAL yw datblygu gallu llyfrgelloedd lleol i roi

mynediad i bawb yng Nghymru at well casgliadau a gwasanaethau gwybodaeth. Yn ddiweddar, cyhoeddais grantiau gwerth £970,000 i lyfrgelloedd o dan gynllun grant datblygu llyfrgelloedd CyMAL, a bydd CyMAL yn cyflogi cynghorydd i helpu llyfrgelloedd i ehangu eu gwasanaethau.

Mae llyfrgelloedd hefyd yn gweithio ar ddarparu mynediad o gartref dros y rhyngrwyd 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos. Erbyn hyn mae llyfrgelloedd cyhoeddus ar draws Cymru yn cynnig mynediad ar-lein at ryw 100 o adnoddau cyfeirio ac at ôl-rifynnau o oddeutu 15 o bapurau newydd y DU. Mae llawer o gatalogau llyfrgelloedd ar gael ar-lein a gall defnyddwyr chwilio am eitemau, trefnu iddynt gael eu cadw iddynt a'u hadnewyddu ar-lein.

## Cyfleusterau Seiclo yn y Gogledd

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cyfleusterau seiclo yn y Gogledd? (WAQ38158)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi bod â rhan uniongyrchol mewn trafodaethau, ond yr wyf yn ymwybodol o gynigion i ddatblygu cyfleuster seiclo ar safle 'The Meadows' ym Mhrestatyn fel lleoliad hyfforddi a chystadlu rhanbarthol i'r Gogledd. Deallaf fod Cyngor Chwaraeon Cymru yn llwyr gefnogi egwyddor y datblygiad hwn a'i fod yn cynorthwyo Undeb Beicio Cymru i lunio cynllun busnes. Disgwylir i'r cynllun gael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych yn fuan iawn gyda golwg ar benderfynu ar y camau nesaf a ffynonellau cyllid posibl. Byddaf yn dilyn hynt y cynllun yn fanwl.

## Y Fenter Nofio Am Ddim

**Denise Idris Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt y fenter nofio am ddim? (WAQ38159)

**Alun Pugh:** Ers y Pasg, 2004, mae pob un o'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru wedi bod yn darparu nofio am ddim i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau yn ystod holl wyliau'r ysgol. Mae'r dystiolaeth gychwynnol yn awgrymu bod y fenter wedi llwyddo unwaith yn rhagor i gynyddu nifer ac amlder yr ymweliadau â phyllau nofio gan bobl ifanc a disgwyliaf i'r data ystadegol gadarnhau hyn. Yr wyf yn disgwyl i'r data ystadegol ddod i law oddi wrth yr awdurdodau lleol erbyn diwedd mis Tachwedd.

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill dros yr haf i ddatblygu meini prawf er mwyn cyflwyno cynllun peilot nofio am ddim i bobl hyn. Byddaf mewn sefyllfa i gyhoeddi manylion y cynllun peilot yn fuan iawn.

## Y Gêmau Paralympaidd

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr athletwyr o Gymru sy'n cymryd rhan yn y gemau Paralympaidd? (WAQ38160)

**Alun Pugh:** Yr oedd Cymru, sydd â 5 y cant o boblogaeth Prydain Fawr, yn cyflenwi 14 y cant o'r athletwyr ac enillodd 28 y cant o'r medalau, oedd yn gamp ragorol. Hoffwn yn arbennig longyfarch David Roberts ar gyfanswm gwych o bedair medal aur ac mae'n bleser gennyf ddweud bod Tanni Grey Thompson yn cael ei

chydnabod bellach fel Paralympiad gorau Prydain erioed. Enillodd ddwy fedal aur yn Athen ac mae wedi ennill cyfanswm o 11 medal aur baralympaidd i gyd, a hynny dros yrfa ryfeddol.

## Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr Eisteddfod yng Nghasnewydd eleni ac am bwysigrwydd cynnal yr Eisteddfod mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn gryf? (WAQ38161) [W]

**Alun Pugh:** Yr oedd Eisteddfod Casnewydd yn ddathliad llwyddiannus o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, gan ddenu 150,000 o bobl gan gynnwys nifer o ddysgwyr a'r di-Gymraeg. Yr oeddwn yn un o'r rhai a groesawodd y mentrau cyffrous yng Nghasnewydd eleni, er enghraifft tywyswyr ac arwyddion a deunydd hyrwyddo dwyieithog.

Yn y pen draw, mater i'r Eisteddfod yw a ddylai'r wyl barhau yn un deithiol. Fodd bynnag, does dim dwywaith bod yr Eisteddfod yn perthyn i Gymru gyfan a'i bod yn gadael gwaddol diwylliannol ac ieithyddol yn yr ardaloedd y mae'n ymweld â hwy.

## Strategaeth y Cynulliad ar gyfer Prif Ddigwyddiadau yn 2004-05

**Laura Anne Jones:** Beth yw strategaeth y Cynulliad ar gyfer prif ddigwyddiadau yn 2004-05? (WAQ38162)

**Alun Pugh:** Yr ydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus yn datblygu ac yn denu digwyddiadau o safon uchel sy'n dod ag ystod eang o fanteision economaidd, diwylliannol a chymdeithasol i Gymru. Un enghraifft o ddigwyddiad o'r fath yw digwyddiad seiclo Cwpan y Byd i ferched, sy'n dod i Gasnewydd y flwyddyn nesaf diolch i gyfraniad ariannol sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad, ynghyd â Chyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Safle Ffatri LG Philips

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol safle ffatri LG Philips? (WAQ37887)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Gobeithiaf fod mewn sefyllfa i wneud datganiad ysgrifenedig llawn ar y mater hwn yr wythnos nesaf.

## Y Cytundeb a wnaed mewn Perthynas â Safle LG

**William Graham:** Yn sgîl cwestiwn WAQ37439, a wnaiff y Gweinidog roi manylion llawn y cytundeb a wnaed mewn perthynas â safle LG? (WAQ37923)

**Andrew Davies:** Gobeithiaf fod mewn sefyllfa i wneud datganiad ysgrifenedig llawn ar y mater hwn yr wythnos nesaf.

## Is-blotio Coedwigaeth

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith is-blotio coedwigaeth ar botensial twristiaeth Cymru? (WAQ37925)

**Andrew Davies:** Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar goetiroedd wedi ei nodi yn ei strategaeth ‘Coetir Cymru’. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ystyriaethau twristiaeth sy’n gysylltiedig ag is-blotio coedwigaeth.

## Lleihau’r Gwasanaethau Trên rhwng Caerdydd a Manceinion Piccadilly

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi’u cael ag Arriva Trains ynghylch lleihau’r gwasanaethau trên rhwng Caerdydd a Manceinion Piccadilly? (WAQ37937)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi gwneud fy mhryderon yn hysbys. Cyhoeddodd Arriva Trains Cymru, mewn ymateb i bryderon a godwyd ynglyn â newid amser y gwasanaeth 7.15 a.m. Caerdydd i Fanceinion i redeg 30 munud yn gynharach o ganlyniad i raglen foderneiddio Network Rail ar lwybr arfordir gorllewin Lloegr, y bydd yn darparu trên ychwanegol, o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn dechrau ar 27 Medi.

Bydd yn gadael Caerdydd am 7.15 a.m., gan alw yng Nghasnewydd, Cwmbrân, Pont-y-pwl a New Inn, y Fenni, Henffordd, Llanllieni, Llwydlo, Craven Arms, Church Stretton ac Amwythig. Bydd yn mynd ymlaen wedyn i Gaer. Bydd yn helpu pobl sy’n teithio i’r gwaith, i’r coleg ac i’r ysgol ar hyd y llwybr.

## Cymorthdaliadau Cyhoeddus a roddir i Arriva Trains

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba gymorthdaliadau cyhoeddus y mae Arriva Trains yn eu cael gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y gwasanaethau rhwng Caerdydd a Manceinion Piccadilly? (WAQ37938)

**Andrew Davies:** Yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol sy’n gyfrifol am daliadau cymhorthdal i Arriva Trains Cymru o dan fasnachfraint Cymru a’r gororau.

## Safle Arfaethedig Gwynt y Môr

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a roddwyd ystyriaeth i allbwn tebygol safle ar y môr arfaethedig Gwynt y Môr wrth bennu ei darged o ran ynni gwynt ar gyfer 2010? (WAQ37986)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi ei gwneud yn glir y bydd angen tua 800 megawat o ddatblygiadau gwynt ar y tir a thua 200 megawat o ynni adnewyddadwy o dechnolegau eraill er mwyn cyrraedd ein targed ynni adnewyddadwy o 4 terawat yr awr erbyn 2010.

Mae prosiect fferm wynt ar y môr Gwynt y Môr yn y cam rhagarweiniol ac mae'n brosiect newydd mawr iawn sydd, fel pob un o brosiectau mawr ffermydd gwynt ar y môr ail gylch y DU, yn codi ystod eang o faterion y bydd angen eu hystyried yn ofalus iawn, gan gynnwys materion posibl yn ymwneud â morwriaeth. Credwn ei bod yn gynamserol, felly, i ddibynnu ar y prosiect hwn i gyfrannu at ein targedau 2010. Fodd bynnag, gallai, os caiff ganiatâd, gyfrannu'n sylweddol tuag at ein targedau 2020.

### Y Gwasanaeth Bws Trawscambria rhwng De a Gogledd Cymru

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaeth bws Trawscambria rhwng de a gogledd Cymru? (WAQ37987) [W]

**Andrew Davies:** O dan fy strategaeth bysiau a choetsys pellter hir, yr wyf wedi darparu cymorth ariannol i'r gwasanaeth Trawscambria i'r gogledd o Aberystwyth ers dwy flynedd. Y llynedd, yr oedd hyn yn werth tua £39,000 ar gyfer y gwasanaeth o Fangor i Aberystwyth. Eleni, yr wyf wedi neilltuo hyd at £171,000 i Gyngor Gwynedd ar gyfer bysiau newydd, gwell ar hyd y llwybr o Fangor i Aberystwyth. Dylai'r rhain ddechrau rhedeg yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Mae Arriva wedi cynnig y dylai'r rhan o'r daith sy'n cael ei gweithredu'n fasnachol i'r de o Aberystwyth gysylltu â threnau yng Nghaerfyrddin. Cyn penderfynu dim, a deallaf na fydd hynny'n digwydd tan y flwyddyn newydd, mae'r cwmni wedi ymrwymo i drafod ei gynlluniau, gan gynnwys y dewis yn y lle cyntaf o fws fydd yn ddolen gyswllt gyfochrog â'r rheilffordd, yn fanylach â First Cymru, a chynghorau sir Gaerfyrddin a Cheredigion, sydd yn fy hysbysu'n uniongyrchol am y sefyllfa.

### Dyfodol Blychau Ffôn Talu yng Nghymunedau Cymru

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda BT am ddyfodol blychau ffôn talu yng nghymunedau Cymru? (WAQ37992)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi ysgrifennu at Ofcom, rheoleiddiwr y diwydiannau cyfathrebu, yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal darpariaeth delathrebu gynhwysfawr mewn ardaloedd lle nad yw ffonau symudol yn gweithio. Yr wyf yn ymwybodol fod BT yn ymgynghori'n lleol ynghylch ffonau talu ledled Cymru ar hyn o bryd.

### Ffatri LG yng Nghasnewydd (Mynd ag Offer Trin Dwr oddi yno)

**William Graham:** A all y Gweinidog gadarnhau fod caniatâd wedi'i roi i fynd ag offer trin dwr o ffatri LG yng Nghasnewydd? (WAQ37994)

**Andrew Davies:** Mae cytundeb terfynol ar drosglwyddo'r adeiladau ar fin cael ei gwblhau a byddaf yn gwneud datganiad ysgrifenedig llawn yr wythnos nesaf yn rhoi cymaint o wybodaeth ag a allaf heb dorri cyfrinachedd masnachol.

### Cwrdd â'r Gweinidog Lluoedd Arfog (DARA)

**Jenny Randerson:** Pryd yn y flwyddyn ddiwethaf y gwnaeth y Gweinidog gwrdd â Gweinidog Lluoedd Arfog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i drafod materion yn ymwneud â'r Asiantaeth Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn? (WAQ38138)

**Andrew Davies:** Cyfarfu'r Prif Weinidog â Gweinidog y Lluoedd Arfer fel a ddisgrifiwyd yn ei ateb ichi yn WAQ38137. Yn ogystal, yr wyf fi wedi cwrdd â'r Is-ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Cymru i drafod materion DARA, ac mae fy swyddogion wedi cael sawl cyfarfod a thrafodaeth am DARA gyda'u cyd-swyddogion yn y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Cysylltiad â Swyddfa'r Wasg

**William Graham:** Yn dilyn y pwynt o drefn a godais yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 21 Medi 2004, a all y Gweinidog gadarnhau a fu ei swyddfa breifat mewn cysylltiad â swyddfa'r wasg cyn 25 Awst 2004? (WAQ38144)

**Andrew Davies:** Gallaf; ni fu mewn cysylltiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## NVQ mewn Gofal Plant

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl sy'n dangos canran y myfyrwyr sy'n cwblhau cyrsiau NVQ mewn gofal plant ar lefel 2, 3 a 4? (WAQ35326)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid yw nifer yr NVQs a gwblheir yn cael ei gasglu fel data cymharol gan Dysgu ac Addysgu Cymru ar hyn o bryd ar draws ei holl raglenni. Mae wedi etifeddu systemau sy'n casglu data am addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, ac mae'r diffiniadau a ddefnyddir wrth gasglu data yn amrywio rhwng y rhaglenni hyn. Dylid nodi bod gwybodaeth am addysg bellach yn cael ei chasglu am y flwyddyn academaidd ac am ddysgu seiliedig ar waith ar sail y flwyddyn ariannol. Bydd cyflwyno cofnod dysgu gydol oes Cymru o fis Awst eleni ar draws holl raglenni dysgu ELWa—ac eithrio ysgolion ôl-16—yn golygu y bydd modd gwneud cymariaethau yn y dyfodol, gyda'r holl ddata yn cael ei gasglu am y flwyddyn academaidd. Mae'r wybodaeth a geisir ar gael o ran addysg bellach am flwyddyn ariannol 2002-03 ac mae wedi ei nodi yn y tabl isod.

Tabl 2: NVQs mewn gofal plant mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn ystod 2002-03.

| Lefel | Nifer cymwysterau | Cyfradd gwblhau |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| NVQ lefel 2 | 800 | 74 y cant |
| NVQ lefel 3 | 1847 | 76 y cant |
| NVQ lefel 4/5 | 36 | 50 y cant |
| **Cyfanswm** | **2683** | **75 y cant** |

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr unigol ELWa 2002-03

Nid yw nifer yr NVQs a gwblheir fesul lefel yn cael ei gasglu o dan y rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn ôl sector. Mae'r diffiniad o fyfyriwr sydd wedi cwblhau o dan y rhaglen hon yn golygu bod gofyn i'r dysgwr gwblhau'r holl weithgareddau a nodwyd mewn cynllun dysgwr unigol, a allai gynnwys, er enghraifft, sgiliau sylfaenol neu allweddol, NVQ a thystysgrif dechnegol. Gallai rhai dysgwyr seiliedig ar waith gwblhau NVQ, ond os nad yw'r sgiliau allweddol wedi cael eu cwblhau ni fyddai hynny'n cyfrif fel cynllun sydd wedi'i gwblhau. Mae gwybodaeth am gwblhau yn cael ei chasglu am yr elfennau hynny o'r rhaglen sydd â fframwaith, er enghraifft, prentisiaethau modern, prentisiaethau modern sylfaen a diplomâu sgiliau modern i oedolion. Mae gwybodaeth am NVQs a enillir mewn gofal plant yn cael ei chasglu fesul lefel ac mae wedi'i chynnwys yn nhabl 3 at ddibenion cymharu.

Yn nhabl 4 ceir nifer y cynlluniau a gwblhawyd mewn gofal plant yn ôl fframwaith y rhaglen dysgu seiliedig ar waith. Ni ellir cymharu'r data hwn â'r NVQs mewn gofal plant a gwblhawyd sydd wedi'u nodi yn nhabl 2 uchod.

Tabl 3: NVQs mewn gofal plant a enillwyd gan gyfranogwyr dysgu seiliedig ar waith yn 2002-03

| **Lefel** | **Nifer canlyniadau** |
|---|---|
| NVQ lefel 2 | 201 |
| NVQ lefel 3 | 93 |
| **Cyfanswm** | **294** |

Ffynhonnell: Cronfa ddata genedlaethol ELWa am hyfforddeion.

Tabl 4: Nifer y cynlluniau dysgu unigol a gwblhawyd yn 2002-03

| **Rhaglen** | **Gadawyr** | **Gadawyr a gwblhaodd gynllun dysgu unigol** | **Canran a gwblhaodd gynllun dysgu unigol** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prentisiaethau modern | 192 | 72 | 38 y cant |
| Prentisiaeth fodern sylfaen/Diploma sgiliau modern i oedolion/Arall | 349 | 71 | 20 y cant |
| **Cyfanswm** | **541** | **143** | **26 y cant** |

Ffynhonnell: Cronfa ddata genedlaethol ELWa am hyfforddeion (data i'w ddiweddaru ymhellach).

Er nad oedd ELWa yn gallu darparu gwybodaeth sy'n rhoi ateb llawn i'r cwestiynau a ofynnwyd gennych, hyderaf fod y wybodaeth yr wyf yn gallu ei darparu yn ddefnyddiol ichi.

### Cost Darparu Cyrsiau NVQ mewn Gofal Plant

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl sy'n dangos cost darparu cyrsiau NVQ mewn gofal plant, a hynny fesul darparwr cyrsiau NVQ lefel 2, 3 a 4 yng Nghymru? (WAQ35329)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Jane Davidson:** Nid oes gan ELWa wybodaeth am gost cyflenwi cyrsiau o'r fath am yr holl ddarparwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, gall ELWa ddarparu gwybodaeth am y cyllid dangosol ar gyfer NVQs mewn gofal plant a gyflenwyd mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn ystod 2002-03. Nid yw'r ffigurau yn nhabl 1 isod yn rhoi'r union swm o arian a ddyrannwyd oherwydd cymhlethdodau yn y fethodoleg gyllido a ddefnyddiwyd i fwrw cyfrif o ddyraniadau colegau unigol ac, o'r herwydd, ffigurau dangosol ydynt. Cyfrifwyd y ffigurau a ddarparwyd drwy gymryd yr unedau myfyrwyr sy'n dysgu dangosol wedi'u pwysoli a'u lluosi â'r gyfradd gyllido safonol yn 2002-03, a oedd yn £61.40.

Tabl 1: Dyraniadau gofal plant dangosol i sefydliadau addysg bellach yn 2002-03

| **Lefel** | **Cyllid dangosol** |
|---|---|
| NVQ lefel 2 | £341,400 |
| NVQ lefel 3 | £938,145 |
| NVQ lefel 4 | £14,911 |
| **Cyfanswm** | **£1,294,456** |

Ffynhonnell: MIDFESS 2002-03 ELWa.

### Cyfnodau Sabothol ar gyfer Athrawon

**Owen John Thomas:** Sawl athro/athrawes sydd wedi cael cyfnod sabothol o dri mis i ddysgu iaith yn 2003-04? (WAQ37930) [W]

**Owen John Thomas:** Sawl athro/athrawes fydd yn cael cyfnod sabothol o dri mis i ddysgu iaith yn 2004-05? (WAQ37931) [W]

**Jane Davidson:** Ers 2003-04, mae arian ar gyfer cyfnodau sabothol dysgu iaith i athrawon wedi bod ar gael o dan raglen datblygiad proffesiynol parhaus Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Mae un athro wedi manteisio ar y cyfle hwn. Mae swyddogion yn datblygu cynllun ar hyn o bryd i gyflawni'r ymrwymiad yn 'Iaith Pawb' i gynnig hyfforddiant i athrawon yn y Gymraeg drwy gyfrwng cyfnodau sabothol yn ystod 2005-06.

### Cymelldaliadau Cyfrwng Cymraeg Atodol

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymelldaliadau cyfrwng Cymraeg atodol sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n gwneud tystysgrif addysg ôl-raddedig mewn ffiseg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn colegau ym Mangor, Aberystwyth a Chaerdydd (Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd)? (WAQ37939)

**Jane Davidson:** Mae'r cynllun cymelldaliadau cyfrwng Cymraeg atodol yn rhoi cymelldaliadau o £1,200 i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chyrsiau cymwys hyfforddi athrawon uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Ei nod yw denu i'r cyrsiau hynny fyfyrwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i godi eu hyder a'u cymhwysedd er mwyn iddynt allu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymeradwywyd yr atodiad ar amryw o gyrsiau ym Mangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin.

Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog, 'Iaith Pawb', yn cynnwys ymrwymiad i wella'r ffordd y mae'r cymelldaliadau cyfrwng Cymraeg atodol yn gweithio a'u gwneud yn fwy deniadol. Mae adolygiad annibynnol ar y gweill ar hyn o bryd a dylai gael ei gwblhau yn yr hydref. Penderfynir ar y camau nesaf unwaith y bydd canlyniadau'r adolygiad wedi cael eu hystyried.

### Ysgol Gynradd Gymunedol Trecastell

**Lisa Francis:** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwneud penderfyniad ynghylch Ysgol Gynradd Gymunedol Trecastell? (WAQ37948)

**Jane Davidson:** Gobeithiaf fod mewn sefyllfa i wneud y penderfyniad yn yr wythnosau nesaf fel y bydd modd ei gyhoeddi cyn y gwyliau hanner tymor.

### Prentisiaethau Modern (Y Tair Blynedd Diwethaf)

**Brian Gibbons:** A all y Gweinidog ddweud faint o fyfyrwyr sydd wedi dechrau a gorffen prentisiaeth fodern

dros y tair blynedd diwethaf? (WAQ38139)

**Jane Davidson:** Rhydd y tabl isod y nifer sydd wedi dechrau a gorffen dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf.

| Rhaglen | Blwyddyn ariannol | Wedi dechrau (a) | Gadawyr (b ) |
|---|---|---|---|
| Prentisiaethau modern | 2001-02 | 6,200 | 5,000 |
| | 2002-03 | 6,800 | 5,600 |
| | 2003-04 | 8,000 | 5,800 |
| Prentisiaethau modern sylfaen | 2001-02 | 11,800 | 9,200 |
| | 2002-03 | 11,700 | 10,600 |
| | 2003-04 | 10,200 | 8,700 |
| Diploma sgiliau modern i oedolion (c) | 2001-02 | 1,000 | 100 |
| | 2002-03 | 800 | 400 |
| | 2003-04 | 900 | 700 |

a. Wedi dechrau—y nifer yn dechrau ar episodau hyfforddi newydd.
b. Gadawyr—y niferoedd yn gadael episodau hyfforddi, yn cynnwys gadael drwy gwblhau, ond heb gynnwys trosiadau.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

**Deddf Ailgylchu Gwastraff Domestig 2003**

**Ann Jones:** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu dosbarthu i awdurdodau casglu gwastraff Cymru i gyd-fynd â Deddf Ailgylchu Gwastraff Domestig 2003? (WAQ37909)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu Deddf Ailgylchu Gwastraff Domestig 2003 yng Nghymru? (WAQ37910)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae gan Gynulliad

Cenedlaethol Cymru y pwer i weithredu Deddf Ailgylchu Gwastraff Domestig 2003 yng Nghymru, ond nid dyletswydd i wneud hynny. Gallwn felly benderfynu pa un a fydd gweithredu'r Ddeddf o gymorth i'r awdurdodau lleol i wireddu'r targedau heriol o ran ailgylchu a chompostio sydd eisoes wedi'u cynnwys yn 'Yn Gall gyda Gwastraff', strategaeth wastraff genedlaethol Cymru 2002. Er mwyn gwireddu'r targedau hyn, bydd gofyn mewn gwirionedd i bob awdurdod lleol ragori ar ofynion y Ddeddf o ran yr amrywiaeth deunyddiau sy'n cael eu casglu ac o ran y mynediad at ailgylchu hawdd a hwylus y bydd angen iddynt ei ddarparu i'w poblogaethau. Nid yw'r Ddeddf yn dod i rym tan 2010, a gallwn adolygu'r sefyllfa mewn da bryd cyn y dyddiad hwnnw i weld a fydd angen yr ysgogiad statudol ychwanegol hwn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi rhoi canllawiau helaeth i'r awdurdodau lleol ar ailgylchu, o fewn 'Yn Gall gyda Gwastraff' ac yn 'Guidance on Municipal Waste Management Strategies in Wales', a gyhoeddwyd yn 2002.

## Gwahardd Hela

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd gwahardd hela yn effeithio ar Gymru wledig? (WAQ37911)

**Carwyn Jones:** Er nad yw hela â chwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod hela yn fater o bwys i lawer o bobl yng Nghymru. Dyna pam, ym mis Rhagfyr 2000, y cyfeiriodd Cyfarfod Llawn y mater i Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol iddo ystyried ei effaith ar Gymru. Cwblhawyd yr adroddiad yn 2002 ac mae ar y we ar:

http://www.cymru.gov.uk/keypubassemcomagriandrural/content/hunting-final-w.htm

## Cronfa Ddwr Llanisien

**Owen John Thomas:** Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd i annog Asiantaeth Amgylchedd Cymru i ddod i gasgliad cynnar ar benodi'r caeau sydd o amgylch cronfa ddwr Llanisien fel safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA)? (WAQ37913) [W]

**Carwyn Jones:** Dim. Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n gyfrifol am benodi safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

## Adnewyddu Adfeilion Tai Mynydd

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi'r Llywodraeth ar adnewyddu adfeilion tai mynydd, a pha ganllawiau a roddir i awdurdodau lleol er mwyn gweithredu'r polisi? (WAQ37927) [W]

**Carwyn Jones:** Mae polisi'r Llywodraeth ar ailddefnyddio ac addasu adeiladau yng nghefn gwlad wedi'i nodi yn 'Polisi Cynllunio Cymru', ac wedi'i ategu gan Nodyn Cyngor Technegol 6: 'Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig'. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn datgan, ym mharagraff 7.6.11, os nad oes modd adnewyddu'r adeilad presennol heb ei addasu, ei ailadeiladu neu ei estyn yn sylweddol, y dylai datblygiad o'r fath fod yn amodol ar reolau llym tebyg i'r rhai ar godi adeiladau newydd yn y wlad. Dylai awdurdodau

cynllunio lleol ystyried y polisi hwn wrth baratoi eu cynlluniau datblygu a gallai fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol.

## Gorchymyn Cregyn Bylchog Cymru a Lloegr

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y bwriad i ddiwygio Gorchymyn Cregyn Bylchog Cymru a Lloegr? (WAQ37933) [W]

**Carwyn Jones:** Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried ymatebion i ymgynghoriad a gwblhawyd yn ddiweddar ar offeryn statudol newydd i Gymru ar fesurau cadwraeth ar gyfer cregyn bylchog yn nyfroedd Cymru. Yr wyf yn disgwyl i Orchymyn newydd ddod gerbron y Cynulliad erbyn diwedd y flwyddyn.

## Defnyddio Biodreulwyr yn y Cynllun Stoc Marw

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynnydd o ran defnyddio biodreulwyr yn y cynllun stoc marw? (WAQ37942)

**Carwyn Jones:** Dywed y Comisiwn Ewropeaidd nad yw biodreulwyr na systemau treulio yn cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd fel dull saff o waredu sgîl-gynhyrchion anifeiliaid. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn barod i ystyried dulliau o'r fath dim ond i'r cwmni perthnasol gyflwyno data gwyddonol yn profi bod ei broses yn ddiogel.

## Y Polisi Amaethyddol Cyffredinol

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynnydd parthed gweithredu elfennau trawsgydymffurfio a'r gronfa genedlaethol wrth ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredinol? (WAQ37944) [W]

**Carwyn Jones:** O ran y safonau a fydd yn berthnasol i'r drefn trawsgydymffurfio, yr wyf yn bwriadu gwneud cyhoeddiad yn ystod yr wythnosau nesaf. O ran manylion y broses o weithredu'r gronfa genedlaethol, mae'r trafodaethau wrthi'n cael eu cwblhau ar lefel y DU. Pan fyddant wedi dod i ben, byddaf wedyn yn gwneud cyhoeddiad yn eu cylch.

## Effaith y Mesur Hela ar Gasglu Stoc Marw

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y Mesur Hela ar gasglu stoc marw? (WAQ37945) [W]

**Carwyn Jones:** Mewn rhai ardaloedd, gall gwahardd hela â chwn fod â goblygiadau ynghylch cyfleoedd i ladd anifeiliaid heb greulondeb ar y fferm a chael gwared ar anifeiliaid trig. Gallai'r ffermwyr hynny sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r gwasanaeth stoc marw, y mae helfeydd yn eu darparu, wynebu costau ychwanegol os byddant yn defnyddio iardiau celanedd neu ffyrdd eraill o waredu anifeiliaid trig oddi ar y fferm. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o helfeydd eisoes yn codi tâl am y gwasanaeth hwn, ac nid oes unrhyw reswm pam na all barhau i fod yn gyfle busnes petai helfeydd yn cael eu gwahardd.

## Y Cynllun Stoc Marw

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar y cynnydd parthed y cynllun stoc marw? (WAQ37946) [W]

**Carwyn Jones:** Mae disgwyl y bydd y cynllun stoc marw cenedlaethol yn dechrau cyn bo hir. Bydd ffermwyr yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, yn cael eu hannog i ymuno â'r cynllun.

## Defnydd Anghyfreithlon o Feiciau Modur Oddi ar y Ffyrdd yng Nghefn Gwlad

**Rosemary Butler:** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i rwystro beiciau modur rhag cael eu defnyddio'n anghyfreithlon oddi ar y ffyrdd yng nghefn gwlad? (WAQ37990) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.***

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr heddlu sy'n arwain yn y gwaith o fynd i'r afael â defnydd gwrthgymdeithasol ac anghyfreithlon ar feiciau modur oddi ar y ffyrdd yng Nghymru. Gallant ddibynnu ar Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988, sy'n ei gwneud yn drosedd gyrru cerbyd yn ddiofal neu'n anystyriol neu heb ganiatâd ar dir nad yw'n ffordd. Atgyfnerthodd pwerau o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 y darpariaethau hyn ac maent yn caniatáu cipio'r cerbydau ar unwaith os ydynt yn achosi dychryn, niwsans neu ofid.

## Y Gronfa Genedlaethol

**Alun Ffred Jones:** A fydd y gronfa genedlaethol yn agor ym mis Hydref? (WAQ38140)

**Alun Ffred Jones:** A fydd trefniadau apelio i'r gronfa genedlaethol? (WAQ38141)

**Alun Ffred Jones:** Pryd bydd cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad ynglyn â'r gronfa genedlaethol yn cael eu cyhoeddi? (WAQ38142)

**Alun Ffred Jones:** A fydd rheolau cyffredin drwy wledydd Prydain yn ymwneud â'r gronfa genedlaethol? (WAQ38143)

**Carwyn Jones:** Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth Ewropeaidd i'r gronfa genedlaethol weithredu ar lefel aelod wladwriaethau. Mae'r pedair adran amgylchedd yn trafod y trefniadau manwl er gweithredu'r gronfa yn y DU. Mae'r trafodaethau hyn yn tynnu tua'u terfyn a disgwyliaf allu gwneud cyhoeddiad yn yr wythnosau nesaf. Y bwriad wedyn fyddai cyhoeddi canllawiau manwl ar y broses o wneud cais i'r gronfa.

## Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau yr Adolygiad o TAN 20

**Sandy Mewies:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl y daw'r adolygiad o TAN 20 i ben? (WAQ38163)

**Carwyn Jones:** Yn wreiddiol, yr oedd yr ymchwil gogyfer â TAN 20 yn cael ei ystyried yn brosiect chwe mis. Fodd bynnag, mae cymhlethdodau'r dasg fel y'u hamlinellwyd yn y fanyleb wedi golygu ei fod wedi bod ar waith erbyn hyn am dros 20 mis ac mae'n debyg y ceir oedi pellach. Yn wyneb yr oedi hwn, yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn asesu natur ac amserlen yr adolygiad o'r TAN ac yn awgrymu y dylai adolygiad llawn gael ei gwblhau erbyn diwedd 2006. Byddaf yn ysgrifennu atoch gyda gwybodaeth bellach cyn gynted ag y bydd ar gael.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Y Gyllideb Gweinyddiaeth Ganolog ('Prosiectau Arbennig')

**Jenny Randerson:** Pa 'brosiectau arbennig' newydd—rhai nad ydynt yn cario ymlaen o flynyddoedd ariannol blaenorol—sy'n cael eu hariannu o floc costau staff gweinyddiaeth ganolog yng nghyllideb y Cynulliad am 2004-05? (WAQ34605)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae dau 'brosiect arbennig' yn cael eu hariannu o fewn y gyllideb gweinyddiaeth ganolog eleni. Adolygiad o'r arolygiaethau o fewn y Cynulliad yw un ohonynt ac mae'r llall yn edrych ar wasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwell yng Nghymru.

### Safle LG

**William Graham:** Yn dilyn cwestiwn WAQ37634, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau y caiff staff y Cynulliad eu lleoli yn y bloc gweinyddol ar safle LG yn ystod 2004? (WAQ37995)

**William Graham:** Yn dilyn cwestiwn WAQ37634, a wnaiff y Gweinidog ddweud faint y disgwylir ei wario ar leoli staff y Cynulliad ar safle LG? (WAQ37996)

**Sue Essex:** Fel a ddywedais yn fy ymateb i'ch WAQ37634, gallai trosglwyddo safle LG ger Casnewydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru arwain at ddefnyddio'r bloc gweinyddol dros dro hyd nes y gwaredir y safle yn ei gyfanrwydd, ond nid oes penderfyniadau wedi cael eu gwneud.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Menywod sydd mewn Perygl o Etifeddu Canser y Fron

**Sandy Mewies:** Pa waith sydd wedi'i wneud gan y GIG yng Nghymru i adnabod y menywod sydd mewn perygl o etifeddu canser y fron ac i ofalu amdanynt? (WAQ37259)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae nifer o ffactorau risg hysbys yng nghyswllt canser y fron. Un yw hanes teuluol, ond tybir bod hyn i gyfrif am 5 i 10 y cant o achosion o ganser y fron. Mae oed yn ffactor llawer pwysicach, gydag 80 y cant o achosion yn cael eu darganfod mewn menywod dros 50. Dyna pam mae'r polisi cenedlaethol i sgrinio'r fron yn targedu menywod rhwng 50 a 64 i gael eu sgrinio am ddim bob hyn a hyn. Dylai pob menyw, pa un a yw'r ffactorau risg yn berthnasol iddynt ai peidio, ddilyn y cyngor ar archwilio eu hunain a dylent godi unrhyw bryderon gyda'u meddyg teulu.

## Damweiniau ar y Ffyrdd yn ymwneud ag Ambiwlansau

**Kirsty Williams:** Sawl gwaith y mae ambiwlans Mercedes Sprinter wedi cael damwain ar y ffordd yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a sawl damwain oedd yn deillio o (a) camgymeriad gan y gyrrwr a (b) diffyg mecanyddol? (WAQ37875)

**Kirsty Williams:** Sawl ambiwlans sydd wedi cael damwain ar y ffordd yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a sawl damwain oedd yn deillio o (a) camgymeriad gan y gyrrwr a (b) diffyg mecanyddol? (WAQ37876)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch yn cael ei chadw'n ganolog a mater i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw.

## Hyfywedd Ysbytai Cymunedol

**Michael German:** Pa gyngor y mae'r Gweinidog wedi'i dderbyn oddi wrth y gwasanaeth sifil ynghylch hyfywedd ysbytai cymunedol Cymru sydd â llai na 30 gwely? (WAQ37878)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn cael fy mriffio yn rheolaidd gan fy swyddogion ar bob mater yn ymwneud â'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys dyfodol ysbytai cymuned.

Ym mis Rhagfyr 2003, dosbarthwyd dogfen fframwaith i'r gwasanaeth a oedd wedi ei bwriadu i gynorthwyo a bod yn sylfaen i'r byrddau iechyd lleol a'u partneriaid wrth iddynt lunio cynlluniau gweithredu Wanless lleol. Ymysg materion eraill, ymdriniai'r fframwaith hwn â phatrymau posibl ysbytai cymuned sy'n cynnig gwasanaethau gofal canolraddol yng Nghymru yn y dyfodol.

## Banc Canser Cymru

**Kirsty Williams:** Pryd y caiff penderfyniad ei wneud ynghylch y cynllun busnes diweddaraf a gyflwynwyd ym mis Mehefin ar gyfer banc canser Cymru? (WAQ37901)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn disgwyl i benderfyniad gael ei wneud erbyn diwedd mis Hydref 2004.

## Mamograms

**Jonathan Morgan:** Sawl claf sydd wedi aros dros 10 diwrnod i gael mamogram yn ystod y ddwy flynedd diwethaf? (WAQ37920)

**Jonathan Morgan:** Sawl mamogram a gomisiynwyd yn ysbytai Lloegr yn ystod y ddwy flynedd diwethaf? (WAQ37921)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch yn cael ei chadw'n ganolog.

## Y Gwasanaeth Ambiwlans Awyr

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda chynrychiolwyr y gwasanaeth ambiwlans awyr ynghylch dymuniad y gwasanaeth i gynyddu'r ddarpariaeth yn ystod yr haf? (WAQ37926) [W]

**Jane Hutt:** Mae'r gwasanaeth ambiwlans awyr ar hyn o bryd yn gweithredu yng ngolau dydd am wyth awr y diwrnod, saith diwrnod yr wythnos. Nid wyf wedi cael trafodaethau â chynrychiolwyr y gwasanaeth ambiwlans awyr yn ddiweddar, ond rwyf wedi cael ar ddeall bod elusen ambiwlans awyr Cymru wrthi'n ystyried pa mor ymarferol fyddai codi nifer yr oriau gwaith yng ngolau dydd yn ystod misoedd yr haf.

## Cefnogaeth Ariannol ar gyfer y Gwasanaeth Ambiwlans Awyr

**Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r gefnogaeth ariannol ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans awyr? (WAQ37932) [W]

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r gwasanaeth ambiwlans awyr yng Nghymru drwy gyllido cost y parafeddygon sy'n gweithio ar y ddau ambiwlans awyr. Caiff costau rhedeg yr hofrenyddion eu cyllido gan roddion elusennol, felly hefyd y caiff yr holl wasanaethau ambiwlans awyr yn Lloegr eu cyllido. Ond mae'r sefyllfa yn yr Alban yn wahanol. Mae hofrenyddion yn ogystal ag awyrennau Gwasanaeth Ambiwlans yr Alban yn cael eu hariannu'n ganolog.

Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion holi swyddogion yn yr Alban beth oedd y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad i ariannu'r gwasanaeth ambiwlans yn ganolog. Serch hynny, mae'n bwysig cofio y byddai'n rhaid i unrhyw fanteision posibl a allai ddeillio o gyllido'r gwasanaethau ambiwlans awyr yn ganolog yng Nghymru yn y dyfodol, gael eu hystyried ochr yn ochr ag anghenion y gwasanaethau ambiwlans o ran cyllid a blaenoriaethau pwysig eraill.

## Awtistiaeth

**Laura Anne Jones:** Pa gymorth sydd ar gael i helpu'r rhai y canfyddir eu bod yn awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac a oes canolfannau arbenigol yn y De i fynd i'r afael â'r cyflwr hwn? (WAQ37934)

**Jane Hutt:** Y byrddau iechyd lleol a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau lleol i bobl ag awtistiaeth ac am asesu angen eu teuluoedd neu eu gofalwyr am gymorth. Mae'n ofynnol i'r byrddau

iechyd lleol a'r awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys ymddiriedolaethau'r GIG, a'r sector gwirfoddol i ganfod anghenion y boblogaeth leol a datblygu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Ym mis Rhagfyr 2002, cyhoeddodd fy nghyd-Aelod yn y Cabinet, Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, a minnau y byddai gan Gymru strategaeth ar anhwylderau sbectrwm awtistig. Ers hynny, mae cynghorwyr polisi'r Cynulliad a chynghorwyr proffesiynol, ynghyd â'r sector gwirfoddol ochr yn ochr ag arbenigwyr ym maes awtistiaeth, gan gynnwys cynrychiolaeth o Awtistiaeth Cymru a'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, wedi bwrw ymlaen yn dda â'r gwaith. Rhagwelir y bydd strategaeth ddrafft i Gymru gyfan yn cael ei chyhoeddi at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd yn y misoedd i ddod.

Mae datblygu'r strategaeth hon yn waith cyffrous ac arloesol. Bydd Cymru yn arwain y ffordd o ran datblygu gwasanaethau o ansawdd uchel, y profwyd eu bod yn effeithiol, a fydd ar gael yn gyson ledled Cymru. Ein nod yw sicrhau bod unigolion ag anhwylderau sbectrwm awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael cymorth sy'n briodol i'w hanghenion gydol eu hoes.

Mae'r awdurdodau addysg lleol yn gyffredinol yn darparu cymorth i ddisgyblion ag anhwylderau sbectrwm awtistig mewn ysgolion prif ffrwd gyda chymorth staff sydd wedi cael hyfforddiant addas. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod y bydd angen addysg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth brif ffrwd ar nifer fach o blant sydd ag anhwylderau sbectrwm awtistig ac mae nifer fach o ysgolion sy'n cynnal eu hanghenion arbenigol.

Yn ogystal, mae Deddf Addysg 2002 yn cynnwys nifer o gymalau sy'n cyfeirio at Gymru yn unig, sy'n caniatáu cydweithredu rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau arbenigol. Agorwyd canolfan ragoriaeth ranbarthol yn swyddogol yn gynharach y mis hwn gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn Ysgol Plas Brondyffryn yn Ninbych. Gwnaed hyn yn bosibl gan grant cyfalaf o £2 filiwn i Ddinbych. Mae trafodaethau ar y gweill rhwng awdurdodau yn y De-ddwyrain a'r De-orllewin i ddarparu cyfleusterau cyffelyb yn eu hardaloedd hwythau. Mae'r Cynulliad hefyd wedi cymeradwyo cyllid i greu cyfleuster ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth lefel uchel yn Ysgol Uwchradd Fairwater, Cwmbrân, i wasanaethu siroedd Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Tor-faen a Chasnewydd. Gobeithiwn allu datblygu ein darpariaeth ranbarthol ymhellach er mwyn sicrhau mynediad teg at ddarpariaeth ledled Cymru i unigolion ag anhwylderau sbectrwm awtistig a'u teuluoedd.

## Y Contract Newydd ar gyfer Deintyddion

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar unrhyw gynnydd ynghylch y contract newydd ar gyfer deintyddion, ac a wnaiff ddatganiad ar sut y mae wedi diweddaru'r byrddau lechyd lleol ar y datblygiadau hyn? (WAQ37943) [W]

**Jane Hutt:** Ym mis Awst cyhoeddais mai'r dyddiad gweithredu ar gyfer y contract newydd i ddeintyddion, nad ydynt mewn contractau lleol, fyddai 1 Hydref 2005. Dywedais hefyd y dylai deintyddion a byrddau iechyd lleol sy'n dymuno symud i gontractau lleol cyn y dyddiad hwn ystyried gwneud hynny nawr gan ddefnyddio cynlluniau gwasanaeth deintyddol personol. Bydd templad o'r contract newydd ar gael yn fuan.

Mae grwp prosiect o dan gadeiryddiaeth prif weithredwr bwrdd iechyd lleol yn cael ei sefydlu i arsylwi sut y

caiff y trefniadau cytundebol newydd eu gweithredu, ac i ddarparu ffynhonnell o brofiad ac arbenigedd ymarferol er mwyn darparu gwybodaeth i lywio'r ffordd ymlaen. Bydd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr y byrddau iechyd lleol, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, pwyllgorau deintyddol yng Nghymru a phwyllgorau deintyddol lleol, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, cynghorau iechyd cymuned, ac eraill sydd â diddordeb. Hefyd, mae swyddogion yn cynnal rhaglen o ymweliadau a sgyrsiau â'r byrddau iechyd lleol ynghylch y newidiadau arfaethedig.

## Penodi Comisiynydd Pobl Hyn i Gymru

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i benodi comisiynydd pobl hyn i Gymru? (WAQ37949)

**Jane Hutt:** Daw'r ymgynghori cyhoeddus ar adroddiad ac argymhellion grwp cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gomisiynydd i bobl hyn yng Nghymru i ben ar 30 Medi. Byddaf yn ystyried yr ymatebion yn fuan ac yn cyhoeddi cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru maes o law.

## Niwrolawdriniaeth Bediatrig

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r cynghorau iechyd cymuned ynghylch cynigion Comisiwn Iechyd Cymru ar gyfer niwrolawdriniaeth bediatrig? (WAQ38148)

**Jane Hutt:** Mater i Gomisiwn Iechyd Cymru yw darparu gwasanaethau niwrolawdriniaeth bediatrig. Yr wyf yn ymwybodol, yn dilyn gwrthwynebiadau gan gynghorau iechyd cymuned i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i drosglwyddo'r gwasanaethau yn Abertawe i Gaerdydd yn 2002, fod archwiliad clinigol annibynnol llawn a gwerthusiad opsiynau wedi cael eu cynnal. Mae'r cynghorau iechyd cymuned a oedd wedi gwrthwynebu'r cynnig yn ystyried canfyddiadau'r ddau ymarferiad hwnnw ar hyn o bryd. Bydd Comisiwn Iechyd Cymru yn penderfynu ar y ffordd ymlaen wedyn yng ngoleuni sylwadau'r cynghorau iechyd cymuned.

## Risg Heintio â Chlefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y risg y gallai cyflenwad Cymru o waed a roddwyd fod wedi'i heintio â chlefyd amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob? (WAQ38149)

**Jane Hutt:** Yr oedd y risg o drosglwyddo vCJD drwy waed a chynhyrchion gwaed yn bosibilrwydd cydnabyddedig mewn theori a chymerwyd cyfres o gamau cyn y cyhoeddiad cyntaf ym mis Rhagfyr 2003 am y trosglwyddiad tebygol cyntaf drwy waed. Yr oedd hyn yn cynnwys tynnu'r celloedd gwaed gwyn—a allai gario risg arwyddocaol o drosglwyddo vCJD—o'r holl waed a ddefnyddiwyd ar gyfer trallwysiadau ers mis Hydref 1998.

Yr wyf wedi sicrhau bod argymhellion y panel digwyddiadau CJD a'r Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Microbiolegol Gwaed a Meinweoedd i'w Trawsblannu wedi cael eu rhoi ar waith yma. Mae'r pwyllgor wedi cynghori y dylid cyflwyno polisi drwy'r DU gyfan i wahardd pobl sydd wedi cael trallwysiad rhag rhoi gwaed cyflawn. Rhoddwyd y mesurau hyn ar waith mewn perthynas â gwasanaethau trallwyso gwaed yng Nghymru ac maent yn gyson â'r mesurau yng ngweddill y DU:

- dylid pennu 1 Ionawr 1980 fel y dyddiad trallwyso tyngedfennol, y gwaherddir rhoddwyr ar ei ôl, gan fod cydnabyddiaeth gyffredinol na fyddai neb wedi dod i gysylltiad ag enseffalopathi sbyngffurf buchod drwy ddiet yn y DU cyn hynny;
- y rhoddwyr ddylai gael eu gwahardd fyddai'r rhai sydd yn bendant wedi cael trallwysiad, a'r rhai sy'n ansicr pa un a ydynt wedi cael trallwysiad gwaed yn y gorffennol;
- rhoddwyr afferesis sydd wedi cael trallwysiad yn y gorffennol.

Mae fy swyddogion yn amcangyfrif y bydd y newidiadau hyn yn arwain at golli oddeutu 10 y cant o roddwyr gwaed.

Mae'r mesurau lleihau risg a gymhwyswyd i bob math o waed, gan gynnwys y mesurau ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnig y drefn orau bosibl ar hyn o bryd ar sail y ddealltwriaeth wyddonol bresennol o vCJD. Bernir nad yw'r risg i gyflenwad gwaed Cymru yn ddim gwell na gwaeth nag i'r DU gyfan. Mae trallwyso gwaed yn dal i fod yn driniaeth sy'n achub bywydau a rhaid parhau i'w chynnwys mewn unrhyw ymarferiad i asesu a rheoli risg.

## Datblygiad Gwasanaethau Fferyllol yng Nghymru

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiad gwasanaethau fferyllol yng Nghymru? (WAQ38150)

**Jane Hutt:** Cydnabu 'Moddion i Lwyddo—Strategaeth ar gyfer Fferylliaeth yng Nghymru' fod gwasanaethau fferylliaeth yng Nghymru'n chwarae rhan ganolog o ran hybu a chynnal ffyrdd iach o fyw, rheoli anhwylderau cyffredin, rheoli meddyginiaethau a roddir ar bresgripsiwn, rheoli cyflyrau tymor hir a rhoi cyngor a chefnogaeth i weithiwr proffesiynol gofal iechyd eraill. Fodd bynnag, o fewn pob un o'r meysydd hyn, mae lle i wneud mwy ac i wella.

Bwriadaf felly gyflwyno datblygiadau a fydd yn sicrhau bod gwybodaeth a chymorth am bob mater yn ymwneud â meddyginiaeth ar gael yn hwylus, ac y bydd modd cyrchu'n hawdd at gyflenwadau newydd o feddyginiaeth yn ôl y gofyn. Hefyd, bydd technolegau newydd a thechnolegau sy'n dechrau ymddangos yn cael eu harneisio i wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch a hwylus, bydd ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion pobl yn fwy effeithiol a bydd y 'bartneriaeth' rhwng y fferyllydd a'r claf yn cael ei chryfhau.

Mae'r contract newydd i fferyllwyr, sy'n cael ei negodi ar sail Cymru a Lloegr, yn debygol o roi sylw i lawer o'r materion hyn gyda mwy o bwyslais ar hybu iechyd a mesurau ataliol, gyda fferyllwyr yn ymwneud mwy yn ymarferol â gofal cleifion o ddydd i ddydd.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod Cydffederasiwn y GIG a Phwyllgor Negodi'r Gwasanaethau Fferyllol wrthi'n trafod telerau'r contract newydd. Ym mis Awst 2004, derbyniodd y pwyllgor y cynnig ariannol o £1.766 biliwn o Loegr yn unfrydol. Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y goblygiadau ariannol i Gymru ac yr wyf yn disgwyl adroddiad gan y swyddogion maes o law.

Mae Lloegr yn cynllunio i roi'r contract newydd ar waith fesul cam o fis Ionawr y flwyddyn nesaf. Yng Nghymru, yr ydym yn bwriadu rhoi proses rheoli prosiect ar waith gyda rheoliadau newydd yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth gan y Cynulliad.

## Cyfleuster Iechyd Integredig Newydd i Blant

**Rosemary Butler:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau ynghylch ariannu'r cyfleuster iechyd integredig newydd i blant yn y Ty-du? (WAQ38151)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr y Sparkle Appeal, a sefydlwyd i godi arian ar gyfer adeilad y ganolfan arfaethedig i blant yn ne Gwent.

Pe bai angen cymorth canolog ar gyfer costau cyfalaf y datblygiad, byddai angen mynd ar drywydd hynny drwy'r broses arferol o ddatblygu achos busnes, a fyddai'n golygu dadl ar y blaenoriaethau cymharol i arian cyfalaf iechyd. Byddai angen i'r flaenoriaeth gymharol a roddir i'r cynllun gael ei hystyried gan gyrff lleol i ddechrau a byddai angen i unrhyw gynigion datblygu dilynol gael eu hystyried hefyd yng ngoleuni blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu yn eu herbyn. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi derbyn cynigion ffurfiol gan y sefydliadau dan sylw. Pe bai cost gyfalaf lawn datblygiad yn cael ei chodi drwy'r rhaglen codi arian, byddai'n bosibl bwrw ymlaen yn fuan, eto, yn amodol ar gefnogaeth comisiynydd ffurfiol a chadarnhad fod darpariaeth wedi'i sefydlu ar gyfer unrhyw oblygiadau refeniw yn gysylltiedig â'r datblygiad neu eu bod yn fforddiadwy fel rhan o gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ni allaf, ar hyn o bryd, nodi amserlen bendant i'r prosiect hwn, ond mae swyddfa ranbarthol de-ddwyrain Cymru o'r adran iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnal cysylltiad rheolaidd â'r ymddiriedolaeth ac â Sparkle gyda golwg ar amlygu amserlenni'r prosiect cyn gynted â phosibl.

## Y Driniaeth a Ddarperir yn Ysbytai Cymru ar gyfer Achosion Brys

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y driniaeth a ddarperir yn ysbytai Cymru ar gyfer achosion brys? (WAQ38152)

**Jane Hutt:** Mae achosion brys yn cael y driniaeth briodol yn dibynnu ar natur yr achos brys a'r rheswm dros dderbyn y claf. Mae manylion penodol triniaeth unigol yn dibynnu ar benderfyniadau clinigol gan y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol dan sylw.

## Gwasanaethau Niwroleg Ymgynghorol yn Ne Cymru

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pa mor ddigonol yw gwasanaethau niwroleg ymgynghorol yn ne Cymru? (WAQ38164)

**Jane Hutt:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad strategol o'r gwasanaethau niwrowyddorau yn ne Cymru. Caiff adroddiad terfynol yr adolygiad ei gyflwyno i fwrdd y comisiwn ym mis Ionawr, a bydd yn cynnwys dadansoddiad o'r gwasanaethau niwroleg arbenigol yn ne a gogledd Cymru ar hyn o bryd.

## Adolygiad o Wasanaethau ar gyfer Cleifion sy’n Dioddef o Gyflyrau Niwrolegol

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt adolygiad Comisiwn Iechyd Cymru o wasanaethau ar gyfer cleifion sy’n dioddef o gyflyrau niwrolegol? (WAQ38165)

**Jane Hutt:** Deallaf gan Gomisiwn Iechyd Cymru fod yr adolygiad yn mynd rhagddo’n dda. Mae’r cadeirydd, Mr David Hardy, wedi ymweld â’r prif ganolfannau niwrowyddorau sy’n gwasanaethu poblogaeth Cymru. Mae’r tri gweithgor wedi asesu cryfderau a gwendidau’r gwasanaethau aciwt, tymor hir ac adsefydlu ar hyn o bryd. Mae ymarferiad gwerthuso opsiynau wedi’i raglennu ar gyfer mis Tachwedd, a fydd yn rhoi llais i ystod eang o rai sy’n ymwneud â’r gwasanaeth, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth. Disgwylir i adroddiad terfynol yr adolygiad gael ei gyflwyno i’r bwrdd cynghori cenedlaethol ar gomisiynu ym mis Ionawr 2005.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Cyfle Cyfartal o Ran Swyddi

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio effaith polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfle cyfartal o ran swyddi? (WAQ35426) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.***

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 25 Mai 2004.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae mwyafrif polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfle cyfartal o ran swyddi yn canolbwyntio ar ein staff ni ac maent wedi’u seilio ar egwyddorion ansawdd. Mae’r rhain yn cynnwys y cynllun ‘Tic Dwbl’, sy’n gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr anabl os ydynt yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd a’r polisi ‘cydbwysedd bywyd a gwaith’, sy’n cynnig amryw o drefniadau gweithio hyblyg i weithwyr.

Eleni, yr ydym yn cyflwyno rhaglen monitro data gynhwysfawr o’r enw Snowdrop i’n helpu i ddadansoddi ac olrhain effaith ein harferion cydraddoldeb ym maes cyflogaeth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn dylanwadu ar bolisïau cyflogwyr allanol, er enghraifft, drwy ei gwaith o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 a’r ymgyrch cyflog cyfartal.

Mae’n ofynnol o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati’n egniol i herio gwahaniaethu hiliol yng nghyd-destun diweithdra. Fel rhan o’r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cynllun cydraddoldeb hiliol, sydd hefyd yn annog llywodraeth leol, GIG Cymru, a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, gan gynnwys monitro ymgeiswyr am swyddi, hyfforddiant a dyrchafiad.

Nod yr ymgyrch cyflog cyfartal yw codi ymwybyddiaeth o wahaniaethu o ran cyflog ac annog cyflogwyr i gynnal archwiliadau cyflog cyfartal. Yn ystod cam un yr ymgyrch, cwblhaodd dros 20 o gyflogwyr

adolygiadau cyflog yn y sector cyhoeddus. Mae cam dau ar y gweill ar hyn o bryd a'i nod yw annog cyflogwyr sector preifat i gynnal archwiliadau cyflog cyfartal.

## Helpu'r Rhai sy'n gwneud Gwaith Gwirfoddol

**Laura Anne Jones:** Sut mae Cynulliad Cymru yn helpu'r rhai sy'n gwneud gwaith gwirfoddol dros achosion da yng Nghymru? (WAQ37988)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo gwirfoddoli ac yn darparu cymorth i wirfoddolwyr mewn amryw o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys tair o raglenni grantiau penodol:

- gwirfoddolwyr y mileniwm—rhaglen i annog gwirfoddoli cyson ymysg pobl ifanc 16 i 24 oed;
- y gymdeithas fyw yng Nghymru—rhaglen i gynorthwyo prosiectau sy'n codi'r proffil ac yn ysgogi rhagor o wirfoddoli;
- cronfa gwirfoddoli yng Nghymru—rhaglen i hyrwyddo gwirfoddoli, yn enwedig gan bobl ddi-waith, ym meysydd iechyd a lles cymdeithasol.

Mae llawer o'r prosiectau a ariannir drwy'r rhaglenni hyn yn rhoi cymorth uniongyrchol i wirfoddolwyr. Er enghraifft:

- ariannu cyrsiau hyfforddi i wirfoddolwyr a rheolwyr gwirfoddolwyr,
- y rhaglen i wirfoddolwyr wedi ymddeol a gwirfoddolwyr hyn—cynllun sy'n recriwtio a chynorthwyo gwirfoddolwyr hyn, a
- www.volunteering-wales.net –gwefan wirfoddoli Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sef adnodd un-stop sy'n rhoi gwybodaeth am wirfoddoli yng Nghymru

Ym mis Mai eleni, cyhoeddasom ganllaw hyrwyddo, 'Getting More out of Life as a Volunteer', sy'n amlinellu manteision gwirfoddoli, ac yn egluro'r help a'r cymorth y gall gwirfoddolwyr ddisgwyl eu cael os ydynt yn penderfynu gwneud gwaith o'r fath.

Mae'r comisiwn annibynnol i adolygu cynllun sector gwirfoddol y Cynulliad wedi gwneud nifer o argymhellion ar sut y gellir ehangu ein cefnogaeth i wirfoddolwyr a gwirfoddoli. Byddaf yn amlinellu ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhellion hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Hydref.

## Y Mesurau i Fynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynglyn â'r mesurau i drechu ymddygiad gwrthgymdeithasol? (WAQ37991)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cwrdd â Gweinidogion y Swyddfa Gartref yn rheolaidd i drafod amryw o faterion yn ymwneud â diogelwch cymunedol yng Nghymru. Yr ydym yn gytûn mai'r partneriaethau diogelwch cymunedol sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru. Mae llawer o adnoddau ar gael i'r partneriaethau i herio ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yr ydym, yn gynyddol, yn defnyddio'r fframwaith deddfwriaethol newydd i'w helpu yn eu hymdrechion.

## Adeiladu Cymunedau Mwy Diogel yng Nghymru

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt yr ymdrechion i adeiladu cymunedau mwy diogel yng Nghymru? (WAQ37993)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio’n agos gyda’r partneriaethau diogelwch cymunedol ac asiantaethau allweddol eraill i gyflenwi strategaethau lleol sy’n gostwng lefel troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau ledled cymunedau yng Nghymru.